*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r PWYLLGOR ARCHWILIO DDYDD GWENER 29 GORFFENNAF 2022 am 9.30 o'r gloch y bore dros Zoom.**

Yn gywir

Gareth Owens
Clerc

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd**

**3. Datganiadau o Ddiddordebau**

**4. Rhybudd o Faterion Brys**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972

**5. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Ionawr 2022**

**6. Materion yn codi**

**7. Ehangu rôl y Diffoddwr Tân yng Nghymru – capasiti'r Gwasanaeth Tân – Adolygiad Thematig**

**8. Siarter Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2022/23**

**9. Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol 2021/2022**

**10. Materion Brys**

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

Dim.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ar 24 Ionawr 2022. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| B Apsley (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

H MacArthur (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); M Georgiou (Dirprwy Swyddog Monitro); G Williams (Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a’r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); N Selwyn (Archwilio Cymru); H Howard (Pennaeth Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 HYDREF 2021

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2021 eu cyflwyno i’w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 – 2024/25

5.1 Cyflwynodd Graham Williams y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 – Mawrth 2025 a'r Dangosyddion Darbodus a Strategaethau'r Trysorlys i'r Aelodau. Atgoffwyd yr Aelodau mai cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth a pholisïau rheoli'r trysorlys, ynghyd â gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar ei ganfyddiadau.

5.2 Aeth Graham Williams â'r Aelodau drwy'r adroddiad, ac esboniodd fod y Strategaeth Gyfalaf yn rhoi golwg gyffredinol ar y gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol o ran gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a rheoli'r trysorlys sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion yr Awdurdod. Hefyd, roedd yn darparu sicrwydd ynglŷn â sut caiff risg gysylltiol ei rheoli, a'r goblygiadau o ran cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Datblygwyd y Strategaeth ar ôl i'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022/23 gael eu cymeradwyo, ac roedd yn cadarnhau cyllideb refeniw net o £39.41m ynghyd â £2.916m arall wedi'i gymeradwyo ar gyfer gwariant cyfalaf.

5.3 Ar ôl cael sicrwydd am wahanol agweddau ar yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r Strategaeth Gyfalaf gyffredinol; a**

**(ii) argymell y dangosyddion darbodus a strategaethau'r trysorlys i'r Awdurdod Tân ac Achub eu cymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.**

6 Y DIWEDDARAF GAN YR ADRAN ARCHWILIO MEWNOL

6.1 Rhoddodd Keith V Williams o'r Adran Archwilio Mewnol wybod i'r Aelodau fod system ariannol newydd am gael ei chyflwyno yn GTAGC yn Ebrill 2022, felly ystyrid mai da o beth oedd cyflwyno'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2022/23 i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf pan fydd y system wedi cael ei rhoi ar waith yn llwyr. Caiff gwaith archwilio mewnol ei wneud yn rhan olaf y flwyddyn ariannol.

6.2 Fel arfer, byddai adroddiad blynyddol archwilio mewnol 2021/22 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, er mwyn i'r agenda beidio â chynnwys yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf a'r cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, caiff adroddiad blynyddol archwilio mewnol 2021/22 ei gyflwyno i'r ATA ym mis Mehefin.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

7 CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2021

7.1 Roedd Nick Selwyn wedi cyflwyno Crynodeb Archwilio Cymru ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r Aelodau.

7.2 Roedd y Crynodeb yn cadarnhau bod y gwaith wedi cael ei gwblhau yn ystod 2020-21 i fodloni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys archwilio cyfrifon, gwelliant parhaus, gwerth am arian, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Roedd datganiadau ariannol yr Awdurdod, sy'n cael eu harchwilio'n flynyddol, wedi derbyn barn wir a theg ddiamod ar 22 Hydref 2021, a hynny cyn y dyddiad cau statudol.

7.3 Roedd y Crynodeb yn nodi gwaith arall a oedd wedi cael ei wneud gan Archwilio Cymru yn ystod 2021-22, gan gynnwys adolygiad o gadernid corfforaethol yn yr Awdurdod er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â sut roedd yn mynd i'r afael â'r heriau ariannol a'r heriau'n ymwneud â chapasiti. Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2021, ac roedd wedi cael ei drafod yng nghyfarfodydd y Panel Gweithredol a'r Awdurdod llawn. Esboniodd y PSTC MacArthur fod cadernid corfforaethol yn cael cryn sylw yn y datganiad llywodraethu blynyddol, a chaiff y camau a gymerir eu hadrodd i'r Awdurdod yn yr Haf.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 RHEOLIADAU ARIANNOL

8.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y Rheoliadau Ariannol er mwyn iddynt gael eu hystyried gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

8.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod y Rheoliadau Ariannol yn cael eu cynnwys o fewn Cyfansoddiad yr Awdurdod a'u bod yn darparu'r fframwaith llywodraethu ar gyfer materion ariannol. Roedd y Rheoliadau wedi cael eu hadolygu a'u diwygio er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Chod Rheoli Ariannol CIPFA.

8.3 Nodwyd mai pwrpas cyffredinol y Rheoliadau oedd darparu trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol fewnol, cyfrifyddu a rheoli. Mae gweithredu'r Rheoliadau hyn yn hyrwyddo gwerth am arian a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol ac ariannol yr Awdurdod.

8.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r Rheoliadau Ariannol arfaethedig; a**

**(ii) argymell y Rheoliadau i'r Awdurdod Tân ac Achub er mwyn iddynt eu cymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **29 Gorffennaf 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **01745 535254** |
| Pwnc | **Ehangu rôl y Diffoddwr Tân yng Nghymru – capasiti'r Gwasanaeth Tân – Adolygiad Thematig** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar yr Adolygiad Thematig o gapasiti'r Gwasanaethau Tân ac Achub i gael rôl ehangach ar gyfer diffoddwyr tân yng Nghymru. Cafodd ei lunio gan y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub i Lywodraeth Cymru, Dan Stephens, a'i gyhoeddi ar 5 Rhagfyr 2021.

2 Mae hefyd yn nodi rhai o'r ystyriaethau ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o ganlyniad i gyhoeddi'r adolygiad hwn a'r llythyrau a ddaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn.

3 Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r ymateb i lythyr y Dirprwy Weinidog ac yn ceisio eu barn.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Ym mis Mawrth 2021, rhoddodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, wybod i'r Senedd am gynlluniau i ddatblygu rôl ehangach i ddiffoddwyr tân yng Nghymru, i gefnogi'r GIG yng Nghymru.

5 Yn dilyn y datganiad hwnnw, penderfynodd Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub Cymru gynnal adolygiad thematig i roi sicrwydd fod gan y tri GTA yng Nghymru y capasiti i wneud unrhyw waith ychwanegol yn deillio o ehangu rôl diffoddwyr tân heb wneud drwg i wasanaethau craidd. Cafodd yr adolygiad gorffenedig ei dderbyn gan y Dirprwy Weinidog, a'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.

6 Yn y chwe mis dilynol, cafwyd deialog barhaus rhwng Prif Swyddogion Tân Cymru a Swyddogion Llywodraeth Cymru. Ar 8 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog at Gadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i ofyn am gadarnhad ysgrifenedig erbyn 31 Awst 2022 ynghylch a ydynt yn derbyn canfyddiadau'r adolygiad a sut maent yn bwriadu symud ymlaen â'r argymhellion (gweler atodiad 1).

**ARGYMHELLIAD**

7 Gofynnir i'r Aelodau nodi:

(i) cyhoeddi "Ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru. Adolygiad Thematig 2021 gan Brif Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru"

(ii) yr ohebiaeth wedi hynny gan y Dirprwy Weinidog at Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac awdurdodi y dylai ymateb gael ei ysgrifennu gan y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân yn adlewyrchu barn yr Aelodau, a'i anfon at y Dirprwy Weinidog erbyn 31 Awst 2022.

**CEFNDIR**

8 Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaeth Cabinet Llywodraeth Cymru gymeradwyo cynnig i fynd ynglŷn â rôl ehangach i wasanaethau tân ac achub (GTAau) Cymru i gefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru.

9 Crëwyd gweithgor Ehangu'r Rôl, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau tân ac achub, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC), Byrddau Iechyd a swyddogion Llywodraeth Cymru. Cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ei gynrychioli gan y PSTC Richard Fairhead. Roedd trafodaethau yn y gweithgor yn cytuno bod potensial clir i ddiffoddwyr tân yng Nghymru ymateb i rai argyfyngau meddygol, i bobl a oedd wedi codwm ond heb gael anaf, ac i helpu i atal codwm yn y cartref.

10 Ym mis Mawrth 2021, rhoddodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd wybod i'r Senedd am gynlluniau i ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru, i gefnogi'r GIG yng Nghymru.

11 Er mwyn rhoi sicrwydd fod gan y tri GTA yng Nghymru y capasiti i wneud unrhyw waith ychwanegol yn deillio o ehangu rôl diffoddwyr tân heb wneud drwg i wasanaethau craidd, roedd Prif Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru wedi cynnal adolygiad thematig a gafodd ei dderbyn gan y Dirprwy Weinidog a'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.

12 Ar yr un pryd, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog at Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y pryd, sef y Cyng. Peter Lewis, yn canmol yr adroddiad ac yn gofyn iddo "ystyried yr argymhellion o ddifri a chymryd yr holl gamau priodol o'u herwydd". Yn y llythyr hwn roedd hi'n cadarnhau y "dylid cytuno ar unrhyw newidiadau i'r arferion gweithio gyda chynrychiolwyr y gweithlu, a hynny mewn ysbryd clir o bartneriaeth gymdeithasol."

13 Roedd yr adolygiad yn gwneud pedwar argymhelliad. Roedd dau yn gysylltiedig ag adolygu'r systemau shifftiau presennol, un yn gysylltiedig â dadansoddi trefn waith ar orsafoedd ac un arall yn gysylltiedig ag ystyried gweithrediad systemau anfon allan.

14 Y systemau shifftiau dan sylw yn yr adolygiad yw'r rhai sy'n cael eu gweithio gan weithwyr ar y tair gorsaf shifftiau 24 awr yn y Rhyl, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy ac yn yr Ystafell Reoli. Ar hyn o bryd, maent yn gweithio patrwm shifftiau o ddwy shifft dydd 9 awr, yna dwy shifft nos 15 awr ac yna pedwar diwrnod oddi ar ddyletswydd. Mae'r system shifftiau hon yn seiliedig ar y patrwm shifftiau traddodiadol sy'n rhan o delerau ac amodau diffoddwyr tân, a elwir yn Llyfr Llwyd.

**GWYBODAETH**

15 Cyfarfu'r Prif Swyddogion Tân yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae'r Prif Swyddogion Tân yn cael cyfarfodydd un-i-un ar wahân gyda'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub. Cafwyd cyfle hefyd i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân drafod argymhellion yr adolygiad thematig gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub, pan roeddent wedi cwrdd yng ngorsaf Wrecsam ar 31 Mawrth 2022. Cafodd hyd y shifftiau nos eu trafod ac i ba raddau y mae blinder yn golygu risg i iechyd a diogelwch oherwydd mai rhwng hanner nos a 07:00 o'r gloch y mae diffoddwyr tân yn gallu gorffwys. Roedd y sgwrs hefyd wedi ymdrin â'r risgiau eraill sy'n wynebu ATAGC, fel y nodwyd gan y Prif Swyddog Tân yn ei hasesiad sefyllfaol.

16 O'r sgyrsiau hyn, ymddengys fod yr argymhelliad i adolygu ac addasu patrymau shifftiau wedi dod i ddechrau o'r angen i gynyddu capasiti, ac roedd Llywodraeth Cymru am negodi ynghylch ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru. Erbyn hyn, mae hyn i'w weld yn fater eilaidd oherwydd y pryder am flinder o dan yr arferion gweithio cyfredol.

17 Ar 8 Gorffennaf 2022, roedd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Dylan Rees, wedi cael llythyr gan y Dirprwy Weinidog yn ei annog i weithredu ar sail yr argymhellion sydd yn yr adolygiad thematig. Er, nid yw'n cyfeirio'n benodol at addasu hyd shifftiau.

18 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddiogelwch ei holl weithwyr a'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru. Ym mis Medi 2021 roedd wedi cefnogi llwybr gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon a gafodd sylw yn asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân. Mae wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer ailstrwythuriad, adolygiadau a gwaith i wella'r meysydd risg-gritigol sef argaeledd gofal tân, hyfforddiant a chapasiti corfforaethol.

19 Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i gael arbenigedd i gynnal adolygiad annibynnol o'r gofynion o ran ymatebion brys ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys modelu i werthuso manteision newidiadau mewn systemau shifftiau. Bydd hefyd yn mynd i'r afael ag argymhelliad Archwilio Cymru y "dylai'r Awdurdod adolygu lleoliadau gorsafoedd er mwyn canfod cyfleoedd i sicrhau'r trefniadau ymateb brys gorau posibl."

20 Yn y cyfamser, argymhellir fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân, yn ysgrifennu i ymateb i'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol i roi sicrwydd iddi o ymrwymiad yr Awdurdod i ddiogelwch a chynlluniau ar gyfer gweithio gyda'i gilydd tuag at newid er lles pobl Gogledd Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC, ac mae'n dangos ymrwymiad y Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Amherthnasol |
| Cyfreithiol | Amherthnasol |
| Staffio | Newid posibl i amodau gwaith gweithwyr ar y gorsafoedd shifftiau 24 awr ac yn yr Ystafell Reoli |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amherthnasol ar hyn o bryd. |
| Risgiau | Y posibilrwydd o gysylltiadau diwydiannol gwael wedi'u cydbwyso â'r canfyddiad o risg i iechyd a diogelwch yn yr arferion gwaith presennol. |

Fis Rhagfyr diwethaf cyhoeddodd ein Prif Gynghorydd Tân ac Achub, Dan Stephens, adolygiad thematig o gapasiti'r Gwasanaeth i ymgymryd â rôl ehangach. Ei gasgliad oedd bod capasiti o'r fath gan y Gwasanaeth, ond bod angen gwneud newidiadau i arferion gwaith er mwyn gwireddu'r nod hwn. Yn wir, casglodd fod angen gwneud newidiadau o'r fath beth bynnag, er budd diogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd. Ysgrifennais atoch ar 3 Rhagfyr yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn gofyn ichi ei ystyried o ddifrif ac yn brydlon.

Mae'r adroddiad hwn, ynghyd ag adroddiadau eraill a lunnir gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, yn cynnwys canfyddiadau a ddatblygwyd yn drylwyr ar sail tystiolaeth gadarn. Mae angen ystyried yr adroddiad hwn yn ofalus a'i roi ar waith yn briodol, oni bai bod rhesymau clir a grymus dros beidio â gwneud hynny.

Mae hynny'n arbennig o wir mewn achosion fel hyn, sy'n peri pryderon gwirioneddol a difrifol ynghylch diogelwch. Nododd adroddiad y Prif Gynghorydd risg sylweddol o ddiffyg hyfforddiant digonol a/neu flinder o dan arferion gwaith presennol. Mae'n bosibl y bydd yn ehangu ar y pryderon hyn yn yr adolygiad mwy trylwyr o ddarpariaeth hyfforddiant y mae wrthi’n ei lunio ar hyn o bryd. Ni ddylai hyn fod yn dderbyniol mewn unrhyw broffesiwn lle mae diogelwch yn hanfodol, yn arbennig lle mae diogelwch y cyhoedd yn y fantol hefyd.

Felly mae'n fater pryder bod cynnydd o ran ystyried argymhellion yr adroddiad a chymryd camau yn eu cylch ledled Cymru wedi bod yn araf yn ystod y chwe mis ers iddo gael ei gyhoeddi. Efallai y bydd rhai o'r newidiadau y gall fod angen eu gwneud yn heriol, ond diogelwch ddylai fod y peth pwysicaf bob tro.

Yn ystod ein cyfarfodydd blaenorol, rwyf wedi pwysleisio’r ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd tuag at newid, ond rwyf hefyd wedi datgan yn glir ein bod wedi cyrraedd pwynt lle mae gwir angen inni sicrhau newid. Fel y byddwch yn deall, pan ddaw'r dystiolaeth a nodwyd gan y Prif Gynghorydd a'r risgiau posibl i ddiogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd i sylw Llywodraeth Cymru, bydd dyletswydd arni i ymateb iddynt a chymryd camau yn eu cylch.

Rwy'n gofyn ichi gadarnhau'n ysgrifenedig eich bod yn derbyn canfyddiadau'r adroddiad cyn gynted â phosibl, a hoffwn weld cynnig ar gyfer symud ymlaen erbyn 31 Awst. Os ydych o'r farn na fydd hynny'n bosibl nac yn angenrheidiol, eto byddwn yn disgwyl cael manylion llawn y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig. Byddwn i a'm swyddogion yn fwy na pharod i'ch helpu mewn unrhyw ffordd i wneud y newidiadau sydd eu hangen, ac rwy'n gwybod bod y Prif Swyddog Tân Dawn Docx eisoes wedi trafod â’m swyddogion pa fath o gymorth y gellid ei roi.

*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **29 Gorffennaf 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Mike Halstead, Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Keith V Williams, Archwilio, CBS Conwy** |
| Pwnc | **Siarter Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2022/23** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Caiff Siarter Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2022/23 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w ystyried a'i gymeradwyo, a hynny yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2017.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Strategaeth gyffredinol Archwilio Mewnol yw cyflawni cynllun archwilio sy'n seiliedig ar risgiau, a hynny mewn modd proffesiynol ac annibynnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Siarter yn nodi sut bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion drwy ddod â dull disgybledig a systematig o werthuso a gwella effeithiolrwydd y prosesau rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu. Caiff y Siarter a'r Cynllun Blynyddol ei gyflwyno i'w gymeradwyo bob blwyddyn.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo Siarter Archwilio a Chynllun Blynyddol 2022/23.

**CEFNDIR**

4 Mae'r gofyniad i gael swyddogaeth Archwilio Mewnol i awdurdodau lleol yn ymhlyg yn adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol". Mae Rheoliadau Archwilio a Chyfrifon (Cymru) 2014 yn gosod ymrwymiad statudol ar yr Awdurdod i "gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system o reoli mewnol".

5 Mae cylch gorchwyl y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i ddogfennu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y cyfnod hyd at 31ain Mawrth 2023.

**GWYBODAETH**

**DATGANIAD Y SIARTER**

6 Strategaeth gyffredinol Archwilio Mewnol yw cyflawni cynllun archwilio sy'n seiliedig ar risg a hynny mewn modd proffesiynol ac annibynnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2017. Mae Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd gwrthrychol i'r sefydliad ac yn cynnal gweithgareddau ymgynghori wedi'u dylunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r Awdurdod. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion drwy ddod â dull disgybledig a systematig o werthuso a gwella effeithiolrwydd y prosesau rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu.

**DIFFINIAD AC AMCAN**

7 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol ddatblygu a chynnal Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd sy'n bennaf yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ynghylch yr amgylchedd rheoli sy'n cynnwys rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu, a hynny drwy werthuso ei effeithiolrwydd o ran cyflawni amcanion y sefydliad. Mae'n mynd ati'n wrthrychol i archwilio, gwerthuso ac adrodd ynghylch yr amgylchedd rheoli fel cyfraniad tuag at y defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Mae'r amgylchedd rheoli yn cynnwys holl weithrediadau, adnoddau a gwasanaethau'r awdurdod, ynghyd â'i gyfrifoldebau tuag at gyrff eraill.

8 Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i ATAGC lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol bob blwyddyn. Mae'r Pennaeth Archwilio yn darparu adroddiad blynyddol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad ffurfiol hwn yn cynnwys barn ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r systemau rheoli risg a'r amgylchedd rheoli mewnol; datgelu unrhyw amodau i'r farn honno ynghyd â rhesymau; crynodeb o'r gwaith archwilio y mae'r farn yn seiliedig arno; i ba raddau y dibynnwyd ar waith cyrff sicrwydd eraill; ac unrhyw faterion yr ystyrir yn berthnasol ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

9 Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu'n ymgynghorol wrth gynghori rheolwyr am faterion sydd o fewn ei gylch gwaith, megis gweithredu rheolaethau priodol o ran prosiectau, datblygiadau a systemau newydd. Caiff union ddyraniad ei adnoddau o ran gwaith ymgynghorol ei bennu yn y cynllun archwilio. Caniateir dyraniadau amser ar wahân ar gyfer gweithgareddau ymgynghori, gwaith yn ymwneud â thwyll ariannol ac archwiliadau dilynol.

**STATWS**

10 Mae Archwilio Mewnol yn atebol i'r Trysorydd o ran rheolaeth linell, ac mae'n helpu i gyflawni swyddogaethau statudol y Prif Swyddog Cyllid, fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Fodd bynnag, mae Archwilio Mewnol yn annibynnol yn ei waith cynllunio a'i weithrediad.

11 Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio fynediad uniongyrchol at y Prif Swyddog Tân, pob lefel o reolaeth ac aelodau etholedig. Mae gan Archwilwyr Mewnol yr awdurdod i wneud y canlynol:

- Mynd i mewn ar unrhyw adegau rhesymol i unrhyw sefydliad awdurdod.
- Cael mynediad at yr holl gofnodion, dogfennau, gwybodaeth a gohebiaeth yn ymwneud ag unrhyw drafodiad ariannol neu drafodiad arall yr ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer adolygu'r archwiliad a/neu ymchwiliadau.
- Gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau mewnol sydd wedi'u dylunio i sicrhau asedau a data i gynorthwyo'r rheolwyr i atal.
- Gofyn am esboniadau yr ystyrir yn angenrheidiol er mwyn eu bodloni eu hunain ynghylch pa mor gywir yw unrhyw fater dan sylw.
- Gofyn i unrhyw un o weithwyr ATAGC ddarparu arian, deunyddiau neu unrhyw eiddo arall sy'n perthyn i'r awdurdod ac sydd yn eu meddiant neu dan eu rheolaeth.
- Cael mynediad at gofnodion sy'n perthyn i drydydd partïon, megis contractwyr neu bartneriaid, pan fo angen ac y bo'n briodol.

**CYFLAWNI'R GWASANAETH ARCHWILIO**

12 Mae Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio yn atebol am ddarparu'r gwasanaeth archwilio yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Er mwyn sicrhau bod modd cyflawni hyn, mae trefniadau priodol ar gyfer:

- Pennu a chynllunio'r gwaith i'w gyflawni yn seiliedig ar Asesiad Anghenion a phroses gynllunio yn seiliedig ar risgiau, cynllun archwilio gweithredol blynyddol a chynlluniau gwaith misol. Mae pob cynllun yn seiliedig ar asesiad o'r risg.

- Darparu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun archwilio, y sgiliau angenrheidiol (o ran archwilio cyffredinol a meysydd technegol) a chyfleusterau cymorth, megis cyfleusterau TG, cyfarpar a phrosesau rheoli a gweinyddu.

**CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23**

13 Mae'r Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer 2022/23 ar gael yn **Atodiad A.** Pwrpas y cynllun archwilio blynyddol yw:-

- Pennu blaenoriaethau archwilio ar y cyd â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub ar sail dull sy'n seiliedig ar risg o bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn.
- Penderfynu pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau archwilio sydd eu hangen.
- Adolygu ac olrhain gwaith archwilio'r flwyddyn flaenorol.

14 Mae'r cynllun archwilio wedi'i ddylunio fel canllaw yn unig. Gallai newidiadau yn yr amgylchiadau neu risgiau eraill a ddaw i'r amlwg arwain at wyro oddi wrth y cynllun. Mae'r cynllun ar gyfer 2022/23 wedi cael ei baratoi yn dilyn ymgynghoriad â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys amser i olrhain argymhellion o archwiliadau blaenorol.

15 Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei gyflawni ar sail Asesiad o Anghenion, sef dull sy'n seiliedig ar risg o bennu anghenion yr Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn, a chynlluniau gweithredol manwl a gaiff eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn i'w cymeradwyo. Mae'r asesiad yn nodi nifer y diwrnodau sydd eu hangen ar Archwilio Mewnol er mwyn adolygu'r meysydd dan sylw yn ddigonol, ynghyd â lefel asesiad risg ar gyfer pob aseiniad archwilio arfaethedig. Prif nod y dull hwn yw sicrhau bod Archwilio Mewnol yn gallu cyflwyno barn ynghylch yr amgylchedd rheoli drwy gyfeirio digon o adnoddau ar sail risgiau cymharol y gweithrediadau, yr adnoddau a'r gwasanaethau dan sylw, a hynny gan ddefnyddio proses asesu risg ffurfiol. Mae'r broses asesu risg yn rhoi ystyriaeth i amrediad o risgiau strategol, corfforaethol, gwasanaethol a gweithredol, gan gynnwys y rhai a ganfuwyd drwy'r broses Rheoli Risg a gan yr archwilydd allanol, a barn yr uwch reolwyr ar y materion hyn. Pan nad ystyrir bod yr adnoddau sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer gallu darparu barn o'r fath, caiff hyn ei gyfeirio at y sefydliad drwy'r Pwyllgor Archwilio.

16 Mae'r Cynllun yn cydbwyso'r gofynion canlynol:

- yr angen i sicrhau bod y Cynllun Archwilio yn cael ei gwblhau i'r lefelau targed a sefydlwyd gan ddangosyddion perfformiad yr adran;
- yr angen i sicrhau bod systemau ariannol craidd yn cael eu hadolygu'n ddigonol er mwyn rhoi sicrwydd fod gan y rheolwyr drefniadau priodol ar gyfer rheolaeth ariannol y bydd yr Archwilio Allanol yn dibynnu arnynt;
- yr angen i adolygu'n briodol drefniadau strategol a gweithredol eraill;

- yr angen i gael amser heb ei ymrwymo ar gael i ddelio â materion na chynllluniwyd ac allai fod angen eu hadolygu neu ymchwilio iddynt;
- dyrannu adnoddau'n gymharol rhwng gwasanaethau sicrwydd, twyll ac ymgynghoriad a ddarperir gan archwilio mewnol.

17 Bydd y cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredol a chynnwys y cynllun yn cael eu cadw dan adolygiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn cysylltiad â'r Trysorydd a thrwy fonitro datblygiadau corfforaethol a gwasanaethol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod am y perfformiad mewn perthynas â'r cynllun gweithredol.

18 Bydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio yn sicrhau bod Llawlyfr Archwilio cyfoes ar gael i nodi'r safonau disgwyliedig ar gyfer y gwasanaeth, a bydd yn monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hyn, gan gynnwys mewn perthynas â'r gwaith o gynllunio aseiniadau archwilio, eu cynnal ac adrodd yn eu cylch.

19 Cafodd asesiad allanol o gydymffurfiaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â Safonau PSIAS ar 31ain Hydref 2016 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Barn gyffredinol yr aseswyr allanol oedd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n gyffredinol â Safonau PSIAS a'r Cod Moeseg ymhob maes arwyddocaol, a'i fod yn gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol. Mae'r asesiad allanol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 2022.

20 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi sefydlu Adolygiad o Berfformiad a Datblygiad, sy'n nodi hyfforddiant ac anghenion datblygu ei weithwyr. Mae'r Adran Archwilio mewnol yn dibynnu'n fawr ar effeithiolrwydd ei staff i ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Nod y broses PDR yw atgyfnerthu a chryfhau'r berthynas rhwng perfformiadau unigolion, disgwyliadau'r rheolwyr, a nodau'r sefydliad. Hefyd, mae'r PSIAS (1230) yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael sicrhau bod gan yr Adran Archwilio Mewnol fynediad at yr holl amrediad o wybodaeth, sgiliau, cymwysterau a phrofiad i gwrdd ag amcanion a safonau'r Adran.

21 Bydd Archwilio Mewnol yn ceisio cydweithredu'n effeithiol â'r archwilydd allanol  sicrhau bod modd rhoi dibyniaeth briodol ar weithgareddau Archwilio Mewnol.

22 Mae'r dull adrodd ar gyfer Archwilio Mewnol wedi'i nodi yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a gymeradwywyd, a bydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r dull hwn fel y dull mwyaf effeithlon o sicrhau canlyniadau ei waith.

23 Wrth gyflawni pob aseiniad, bydd Archwilio Mewnol yn ceisio gwneud argymhellion ymarferol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith, a bydd yn trafod y rhain gyda'r rheolwyr, fel bod y rheolwyr yn ymrwymo i gynllun gweithredu priodol ar gyfer gweithredu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r amgylchedd rheoli.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Cymerwyd y rhain i ystyriaeth, a'u hymgorffori yn y Siarter. |
| Cyllideb | Dim pwysau costau ychwanegol; mae'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2022/23 yn cynnwys taliad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am Wasanaethau Archwilio Mewnol. |
| Cyfreithiol | Cydymffurfio ag Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Dim oblygiadau; Siarter a Chynllun Archwilio Mewnol wedi'u rhoi ar waith gan staff Archwilio Mewnol Conwy. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Gwasanaethau Archwilio Mewnol Conwy yn gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth. |
| Risgiau | Byddai methu â llunio Siarter a chynllunio'n briodol waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn arwain at ddull annisgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd y prosesau rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu ac yn effeithio'n negyddol ar wella gweithrediadau'r Awdurdod. Byddai hyn yn gwanhau'r fframwaith llywodraethu, a gallai arwain at sefyllfa lle mae'r Awdurdod yn cael barn niweidiol ar ei drefniadau ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Mewnol, fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ATODIAD A

# Cynllun Archwilio Blynyddol Mewnol Drafft 2022/23

| Cyf. | Adolygiad Archwilio | Sylwadau | Diwrn-odau | Amser a gynllun-iwyd |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Risgiau Ariannol ac o ran Twyll** | | | | |
| **17** | Y Gyflogres – Taliadau a Chysoni | Y nodau yw arfarnu pa mor ddigonol yw gweithdrefnau'r gyflogres o ran talu cyflogau a chysoni, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw wendidau mewn rheolaeth fewnol ynghyd â meysydd o risg posibl o fewn y system. | **15** | **Medi 22** |
| **24** | Storfeydd Canolog | Adolygiad o'r gweithdrefnau Storfeydd Canolog o ran prynu, derbynebau, dosbarthu, stoc, addasiadau a diogeled. | **15** | **Tach. 22** |
| **27** | Credydwyr | Archebu a thalu am Waith, Nwyddau a Gwasanaethau er mwyn sicrhau'r lefelau priodol o reolaeth fewnol. | **15** | **Ion. 23** |
| **Gwaith Archwilio Arall** | | | | |
| **-** | Cynllunio Archwiliadau, Adroddiad Blynyddol a Rheolaeth | Darparu ar gyfer yr amser sydd ei angen ar gyfer yr elfen reoli o'r contract. | **6** | **Parhau** |
| **-** | Olrhain Argymhellion Blaenorol | Olrhain argymhellion a wnaed yn 2021/22 –<br>• Gyrru Peiriannau Tân mewn Argyfwng (EFAD) | **5** | **Parhau** |
| **-** | Cronfa wrth gefn | Ar gyfer gwaith heb ei gynllunio a nodwyd yn ystod y flwyddyn a chysylltu/cynghori fel y bo angen. | **2** | |
| **Cyfanswm y Diwrnodau sydd eu Hangen ar gyfer Gwaith Archwilio** | | | **58** | |
| **Cyfanswm y Diwrnodau a Ddyrannwyd 2022/23**<br>**Cyfanswm y Diwrnodau a gariwyd drosodd o 2021/22**<br>**Cyfanswm y Diwrnodau a oedd ar gael 2021/22** | | | **50**<br>**8**<br>**58** | |

*This document is available in English*

**Eitem ar yr agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **29 Gorffennaf 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **01745 535286** |
| Pwnc | **Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol 2021/2022** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i Aelodau am weithgareddau rheoli'r trysorlys a dangosyddion darbodus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r adroddiad hwn yn un o ofynion y Cod Darbodus (y Cod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae gweithgareddau'r Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd. £24.4m oedd y sefyllfa fenthyca ar 31 Mawrth 2022, ac mae hyn o fewn y terfyn a gymeradwywyd gan yr aelodau. £13.6m oedd gwerth y benthyciadau tymor byr ac mae hyn o fewn y terfyn a osodwyd o fewn y strategaeth. Nid oedd unrhyw fenthyciadau ar gyfradd newidiol yn cael eu dal ystod y flwyddyn ariannol.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r gweithgarwch rheoli'r trysorlys; a
(ii) cymeradwyo'r dangosyddion darbodus terfynol ar gyfer 2021/22.

**CEFNDIR**

4 Mae gweithgareddau'r Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd perthnasol. Mae'r gofynion allweddol yn cynnwys llunio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a dangosyddion darbodus i ddangos bod y penderfyniadau ynghylch cyfalaf a benthyciadau yn rhai fforddiadwy. Rhaid i'r dogfennau hyn gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Hefyd, dylid sefydlu trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ynghylch y dangosyddion darbodus yn ystod y flwyddyn ariannol ac adrodd ynghylch y sefyllfa alldro i'r Awdurdod.

5 Cafodd y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2021. Cafodd y dangosyddion darbodus eu diwygio yn ystod y flwyddyn oherwydd bod y rhaglen gyfalaf wedi cael ei had-drefnu gan arwain at lai o angen i fenthyca yn ystod y flwyddyn. Cafodd y diwygiadau hyn eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021. Dyma'r adroddiad terfynol ar gyfer 2021/22, ac mae'n nodi'r dangosyddion darbodus ar gyfer y flwyddyn a'r sefyllfa Rheoli'r Trysorlys. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA.

**Gwybodaeth**

**GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS YN 2021/2022**

**Crynodeb o'r Strategaeth y Cytunwyd arni ar gyfer 2021/2022**

6 Caiff y penderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch benthyca eu dirprwyo i'r Trysorydd, sy'n gorfod sicrhau'r ffurf fwyaf priodol ar fenthyca, gan ddibynnu ar y cyfraddau llog sy'n gyffredin ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfraddau sefydlog tymor byr, a allai ddarparu cyfleoedd am gostau is yn y tymor byr/canolig.

7 Cymerir dull gofalus wrth fuddsoddi arian dros ben. Mae'r adneuon arian parod sydd eu hangen ar gyfer cynnal cyfalaf gweithredol wedi cael eu rhoi mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu. Dim ond ar gyfer buddsoddiadau tymor hir y defnyddio cyfryngau eraill.

**Gweithgarwch benthyca**

8 Y ddyled fenthyciadau a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2022 oedd £24.4m. Cymerir benthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod. Darperir rhagor o ddadansoddiad o'r proffiliau aeddfedu yn Atodiad A.

9 Nodir isod fenthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a ddelid ar 31 Mawrth 2022, ac roeddent yn £15.4m:

| Sefydliad | Dadansoddiad Canrannol | Swm (£) |
|---|---|---|
| PWLB (1 i 2 flynedd) | 39.3% | 6.07m |
| PWLB (3 i 5 mlynedd) | 44.2% | 6.82m |
| PWLB (6 i 10 mlynedd) | 1.5% | 0.23m |
| PWLB (10 mlynedd a mwy) | 15.0% | 2.32m |
| **Cyfanswm gan PWLB** | **100%** | **15.43m** |

10 Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd cyfanswm o £6m o fenthyciadau gan y PWLB. Mae'r portffolio benthyciadau yn cynnwys benthyciadau Rhandaliadau Cyfartal o'r Prifswm (*EIP - Equal Instalment of Principal*). Yn gyffredinol, roedd y benthyciadau a ddelid gan yr Awdurdod wedi gostwng £1.68m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

11 Roedd yr Awdurdod wedi cymryd £9.0m mewn benthyciadau tymor hir gydag awdurdodau lleol ar ddiwedd y flwyddyn, fel y nodir isod:

| **Sefydliad** | **Dadansoddiad Canrannol** | **Swm (£)** |
|---|---|---|
| Tai Gogledd Iwerddon | 33.3% | 3.0m |
| Cyngor Swydd Warwick | 33.3% | 3.0m |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 33.3% | 3.0m |
| **Cyfanswm y Benthyciadau Tymor Byr** | **100%** | **9.0m** |

12 Roedd y benthyciadau hyn yn darparu opsiwn ar gost isel i'r Awdurdod, gan mai 0.113% oedd y gyfradd log gyfartalog, sy'n cymharu'n ffafriol â'r gyfradd gyfartalog o 2.088% gan y PWLB.

13 Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022 oedd bod 36.8% o'r benthyciadau yn fenthyciadau tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill ac 19.1% yn fenthyciadau'r PWLB a oedd i fod i aeddfedu o fewn 12 mis. Cyfanswm y benthyciadau a oedd yn aeddfedu o fewn 12 mis ar 31 Mawrth 2022 oedd 55.9%, o gymharu â'r dangosydd sef 60%.

14 Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cadarnhau y dylai'r portffolio benthyciadau fod ag uchafswm o 35% o ddyled mewn benthyciadau amrywiol, a hyd at 100% o fenthyciadau ar gyfnod sefydlog. Yn ystod 2021/22, dim ond ar delerau cyfnod sefydlog y gwnaeth yr Awdurdod fenthyca, a hynny oherwydd y cyfraddau llog sy'n gyffredin ac er mwyn galluogi sicrwydd.

15 Roedd y benthyciadau gwirioneddol ar gyfer 2021/22 £3.96m yn is na'r gofyniad cyllido cyfalaf (CFR) a gymeradwywyd. Talwyd cyfanswm o £0.305m o log, o gymharu â'r gyllideb o £0.449m.

## Buddsoddiadau

16 Mae'r egwyddorion sy'n llywodraethu polisi buddsoddi'r Awdurdod wedi'u cynnwys mewn Cyfarwyddyd gan Gynlluniad Cenedlaethol Cymru yn 2003. Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn, ac nid oedd unrhyw anawsterau hylifedd gan yr Awdurdod.

17 Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2020/21, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 15 Mawrth 2021, yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer partïon i gontract:

(1) Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys: terfyn – £5.0m

(2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio cap ar gyfraddau) – terfyn £2.0m

(3) Pob banc Prydeinig a Gwyddelig, a'u his- gwmnïau sydd â sgoriau da (Fitch neu gyfwerth) - terfyn: £5m

Mae gan bob Cymdeithas Adeiladau sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) derfyn benthyca o £2.0m.

Cymdeithasau Adeiladau sydd heb sgôr ond sydd â gwerth £1 biliwn neu fwy o asedau: terfyn o £2m gyda therfyn amser mwyaf o 9 mis.

18 £0m oedd balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2022, o gymharu ag £1.49m ar 31 Mawrth 2021. Penderfynodd yr Awdurdod leihau'r buddsoddiadau gymaint â phosibl er mwyn lleihau benthyca pan fo modd.

## Dangosyddion Darbodus

19 Dan y Cod Darbodus, rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo'r dangosyddion darbodus gwirioneddol ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn darparu rhestr o'r holl ddangosyddion darbodus gorfodol. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r terfynau allweddol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2021/22:

| | Dangosydd Diwygiedig 2021/2022 £'000 | Gwirioneddol 2021/2022 £'000 |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyciadau | 24,000 | 24,434 |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) | 28,727 | 28,396 |

20 Mae'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) yn dangos beth yw'r angen gwaelodol sydd ar yr Awdurdod i fenthyca am resymau cyfalaf. Yn y tymor byr, gallai'r gofyniad i fenthyca fod yn uwch na'r gofyniad cyllido cyfalaf, a hynny oherwydd effaith arian parod a buddsoddiadau. Mae'r tabl uchod yn dangos bod y sefyllfa fenthyciadau gros £3.96m yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf ar gyfer 2021/22.

21 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy sy'n ofynnol dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl isod yn dangos bod yr Awdurdod yn ystod 2021/22 wedi cadw ei fenthyciadau gros o fewn ei Derfyn Awdurdodedig.

22 Y Ffin Weithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir yn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai uwchlaw neu islaw'r Ffin yn dderbyniol, ar yr amod nad yw'r Terfyn Awdurdodedig yn cael ei dorri.

| | **2021/22 £'000** |
|---|---|
| Dangosydd Diwygiedig – Terfyn Awdurdodedig | 30,727 |
| Dangosydd Diwygiedig – Ffin Weithredol | 28,727 |
| Y sefyllfa fenthyca uchaf yn ystod y flwyddyn | 27,694 |
| Y sefyllfa fenthyca isaf yn ystod y flwyddyn | 22,711 |

**FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO, RISG A PHERFFORMIAD**

23 Mae gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn yr Awdurdod yn cael eu rheoleiddio gan godau proffesiynol, statudau a chyfarwyddyd:

24 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf) yn darparu'r pwerau i fenthyca ac i fuddsoddi, yn ogystal ag yn darparu rheolaethau a therfynau ar y gweithgarwch hwn. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru osod terfynau, naill ai ar yr Awdurdod neu yn genedlaethol ar bob awdurdod lleol, i gyfyngu ar y swm y gellir ei benthyca (er na chafodd unrhyw gyfyngiadau eu gwneud yn 2021/22). Dan y Ddeddf, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi Canllaw ar Fuddsoddi i strwythuro a rheoleiddio gweithgareddau buddsoddi'r Awdurdod.

25 Mae Offeryn Statudol (OS) 3239 (Cy.319) 2003, fel y'i diwygiwyd, yn datblygu'r rheolaethau a'r pwerau o fewn y Ddeddf. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Darbodus CIPFA ar Gyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol wrth wneud unrhyw weithgareddau benthyca, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflawni'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn gyffredinol. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol uchod, sy'n cyfyngu ar y lefelau o risg sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn nodedig, gan ei fod wedi mabwysiadu a gweithredu'r Cod Darbodus a'r Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, mae ei wariant cyfalaf yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac mae arferion ei drysorlys yn dangos dull sy'n ymwneud â risgiau isel.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'r adroddiad yn sicrhau bod asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael eu prynu mewn modd darbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf, a hynny yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi ym mharagraff 18. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael ei fuddsoddi fethu, gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lleihau'r risg hon. |

**Atodiad A**

**Dangosyddion Darbodus**

| | | **Dangosydd Amcangyfrifiedig 2021/22 £'000** | **Gwirioneddol 2021/22 £'000** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 1,343 | 1,176 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 28,727 | 28,396 |
| 3 | Benthyciadau | 24,000 | 24,434 |
| 4 | Terfyn Awdurdodedig | 30,727 | 30,727 |
| 5 | Ffin Weithredol | 28,727 | 28,727 |
| 6 | Cymhareb rhwng Costau Cyllido a Gwariant Net | 6.3% | 6.2% |
| 7 | Buddsoddiadau | 3,510 | 0 |
| 8 | Benthyciadau Cyfraddau Llog sefydlog fel % o'r Holl Fenthyciadau | 100% | 100% |
| 9 | Benthyciadau cyfraddau amrywiol fel % o'r Holl Fenthyciadau | 0% | 0% |
| 10 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 0% - 60% | 55.9% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 0% - 45% | 5.7% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 0% - 45% | 27.9% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 0% - 75% | 0.9% |
| | 10 mlynedd a mwy | 0% - 100% | 9.6% |